# Rheoli plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd trwy saethu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd trwy saethu. Mae'n gysylltiedig â'r gweithgareddau gwaith rydych chi'n ymgymryd â nhw i reoli plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd gan ddefnyddio arf tanio.

I fodloni'r safon hon, byddwch chi'n gallu:
• nodi presenoldeb plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd (mamaliaid neu adar)
• saethu plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd yn gyfreithlon ac yn ddiogel.

Wrth ddefnyddio arfau tanio, mae'n rhaid eich bod wedi cael eich hyfforddi'n llawn ar eu defnyddio a'u diogelwch a rhaid bod gennych drwydded dryll/arf tanio berthnasol, a thrwyddedau eraill y gall y gyfraith ofyn amdanynt.

Rhaid i holl ddefnyddwyr cyfarpar delweddu thermol neu weld yn y nos allu eu defnyddio'u hyderus ac yn gymwys cyn tanio byw. Mae hyfforddiant ymgyfarwyddo mewn amgylchedd rheoledig yn cael ei argymell.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n rheoli plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd trwy saethu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal y gweithgarwch yn ddiogel yn unol â’r gofynion iechyd a diogelwch ac asesiadau risg perthnasol
2. gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
3. defnyddio’r dulliau perthnasol i fonitro a dehongli arwyddion i bennu gweithgarwch plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd
4. addasu gweithgareddau monitro i gyfrif am amrywiadau tymhorol, amodau tywydd presennol a chynefin
5. adnabod rhywogaethau plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd cyffredin
6. pennu pryd mai saethu fyddai’r dull gweithredu gorau i ddelio â phlâu ac ysglyfaethwyr, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer penodol i wlad ar hel mamaliaid ac adar
7. gwirio a oes angen trwydded penodol i rywogaeth a chadarnhau ei bod ar waith
8. dewis y dull saethu, yr arf tanio a’r bwledi sy’n briodol i’r rhywogaeth pla ac ysglyfaethwr fertebraidd, nodweddion y safle ac yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer presennol penodol i wlad
9. gwirio arfau tanio a chydrannau cyn eu defnyddio a chadarnhau eu bod yn gweithio
10. cludo, cario a pharatoi’r arf tanio a’r bwledi yn ddiogel, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer arfau tanio
11. cyflawni gweithdrefnau llwytho a dadlwytho diogel
12. nodi rhywogaethau targed gan ddefnyddio cymhorthion, lle bo’r gofyn
13. pennu ystod effeithiol fwyaf yr arf tanio, yn ôl y fwled a ddefnyddir a’r rhywogaeth darged
14. trin yr arf tanio yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser, yn unol â’r codau ymarfer perthnasol
15. anelu a thanio’r arf tanio yn effeithiol ac yn ddiogel i saethu’r targed
16. lleihau’r tarfu ar rywogaethau nad ydynt yn darged
17. lladd plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd sydd wedi’u niweidio heb iddynt ddioddef, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer penodol i wlad
18. gwaredu plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd marw yn gywir, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer penodol i wlad
19. datgymalu'r arf tanio a’i rhoi at ei gilydd yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr ac arfer gweithio diogel

20. glanhau, cynnal a chadw a storio'r arf tanio a'r bwledi ar ôl eu defnyddio, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol
21. cynnal cofnodion rheoli plâu ac ysglyfaethwyr yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol penodol i wlad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â monitro a saethu plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd, gan gynnwys peryglon gweithio ar eich pen eich hun
2. eich cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol a chadwraeth berthnasol yn gysylltiedig â monitro a rheoli plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd
3. y dillad a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) y dylid eu gwisgo
4. y rhywogaethau plâu ac ysglyfaethwyr sy'n dod o dan ofynion penodol i wlad am drwyddedau cyffredinol, pryd mae angen trwydded penodol i rywogaeth a sut i wneud cais am y rhain
5. y cyfyngiadau cyfreithiol perthnasol sy'n rheoli perchnogaeth ar arfau tanio a'r defnydd ohonynt yn gysylltiedig â saethu plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd
6. pwysigrwydd gwirio arfau tanio a'u cydrannau cyn eu defnyddio a dilyn amserlen cynnal a chadw yn rheolaidd
7. y gofynion cyfreithiol sy'n rheoli storio, cludiant a symud arfau tanio a bwledi
8. cymhwysiad effeithiol a chyrhaeddiad arfau tanio a bwledi
9. sut i ddewis y bwledi cywir a'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer presennol penodol i wlad ynghylch defnyddio gwahanol fathau o fwledi, a beth arall y dylid ei ystyried
10. y rhywogaethau plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd cyffredin a sut i adnabod a dehongli arwyddion i bennu gweithgarwch plâu ac ysglyfaethwyr
11. sut i adnabod rhywogaethau targed, rhywogaethau nad ydynt yn darged a rhywogaethau gwarchodedig
12. y dulliau o fonitro presenoldeb plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd, gan gynnwys defnyddio technoleg
13. effeithiau'r tymhorau ac amodau'r tywydd ar fonitro poblogaethau plâu ac ysglyfaethwyr a sut y gellir addasu dulliau i gyfrif am y newidiadau hyn
14. arwyddocâd ac effeithiau posibl presenoldeb plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd ar y safle a'i ddiben, ac ar boblogaethau anifeiliaid a phlanhigion
15. nodweddion ymddygiadol plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd a sut gall y rhain ddylanwadu ar effeithiolrwydd y dull saethu a ddewiswyd
16. sut i saethu rhywogaethau plâu ac ysglyfaethwyr, yn adar ac yn famaliaid, yn effeithiol ac yn ddiogel, gan gyfrif am gyrhaeddiad absoliwt
17. pryd y daw saethu yn anniogel a rhaid rhoi'r gorau iddo

18. pryd mae saethu gyda'r nos yn briodol, y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol penodol i wlad sy'n rheoli'r defnydd ohono a'r cymhorthion y gellir eu defnyddio i'w gynorthwyo
19. sut i leihau effaith saethu ar rywogaethau nad ydynt yn darged
20. sut i ladd gwahanol rywogaethau plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd heb iddynt ddioddef
21. sut i waredu plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd sydd wedi'u lladd yn ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer penodol i wlad
22. sut i leihau peryglon clefyd wrth drin anifeiliaid marw
23. sut i dynnu arfau tanio ar led a'u rhoi at ei gilydd
24. sut i lanhau, archwilio a chynnal a chadw arfau tanio a pham mae hyn yn bwysig
25. y gofynion ar gyfer cynnal cofnodion rheoli plâu ac ysglyfaethwyr cywir a chyfredol

## Cwmpas/Ystod

**Dehongli o leiaf bump o'r arwyddion canlynol i bennu gweithgarwch plâu ac ysglyfaethwyr:**

• eu gweld yn uniongyrchol
• rhediadau
• olion troed
• difrod i gynefin
• anifeiliaid marw
• lladdiadau
• seiniau
• arogleuon
• tail

**Adnabod rhywogaethau targed, rhywogaethau nad ydynt yn darged a rhywogaethau gwarchodedig:**

• mamaliaid
• adar

**Dewis dull saethu i gyfrif am:**

• y math o bla ac ysglyfaethwr
• nodweddion y lleoliad saethu (topograffeg, cynefin, gweithgarwch arall yr ardal, mynediad i'r cyhoedd)
• eich diogelwch eich hun a diogelwch cyfranogwyr eraill a'r cyhoedd

## Geirfa

**Arfau tanio** – dryll a/neu reiffl

**Plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd** – gallai enghreifftiau nad ydynt yn ddi-ben-draw gynnwys: cwningod, carlymod, gwencïod, gwiwerod llwyd, cadnoid, brain, piod, mincod, llygod mawr

Rheoli plâu ac ysglyfaethwyr fertebraidd trwy saethu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 4 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS79 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ystâd, Ciper, Tyddynnwr, Crofftwr |
| **Cyfres/Set** | Crofftio a Chadw Tyddyn, Rheoli Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | pla; ysglyfaethwr; fertebraidd; saethu; arf tanio; reiffl |